

Adroddiad Atebolrwydd: Harry Polley, Llywydd

Mynediad i Adeiladau

Un peth 'dw i eisiau canolbwyntio arno ydi mynediad i adeiladau. Fe ges i daith o amgylch y Campws efo aelod o'r tîm Profiad Myfyrwyr, a wnaeth ddangos yn garedig mannau o ddiddordeb o amgylch y campws. Cafodd 7 adeilad eu nodi: Prif Adeilad y Celfyddydau, Alun, Stryd y Deon, Wheldon, Adeilad Dysgu Gydol Oes, Brambell a Thoday. Y broblem gyffredin efo'r rhain i gyd oedd yr arwyddion, ac mewn llawer o achosion doedd hi ddim yn glir lle roedd y mynedfeydd hygyrch. Rydw i wedi holi am hyn ac mi fyddai yn gweithio efo'r tîm ystadau i ddarparu datrysiadau. Yn ddiweddar, mae'r brifysgol wedi rhyddhau adnodd ar-lein efo fideos ar sut i ffeindio mannau dysgu ar hyd y campws, efo codau QR wedi eu gwasgaru ar hyd y campws. Mae hwn yn newid cadarnhaol iawn, gan ei fod yn gymorth enfawr i alluogi myfyrwyr i ffeindio eu stafelloedd darlithio yn haws.

CCDP

Maes arall i mi ganolbwyntio arno ydi CCDP. Mae adroddiad wedi ei gyflawni ar sut mae myfyrwyr a staff yn teimlo am CCDP. Y canlyniadau bras ydi fod yna ddryswch dros beth ydi CCDP, pa wybodaeth mae'n darparu a sut i'w ddefnyddio'n effeithiol o'r ddwy ochr. Fy nod yma ydi i roi hyfforddiant staff ar CCDP fel bod staff yn gallu deall beth sydd ei angen ar fyfyrwyr yn fwy clir, yn ogystal â'i gwneud hi'n gliriach i fyfyrwyr pwy sydd yn neu ddim yn gallu gweld manylion penodol pan maent yn rhestru gwybodaeth fel cyfrinachol. Fodd bynnag, dylid nodi fod y gyfradd ymateb yn isel, felly mae yna siawns uchel y bydd arolwg ychwanegol yn cael ei ryddhau i gasglu mwy o ddata. Y camau nesaf ydi i gyflwyno canlyniadau'r arolwg hyn i'r Brifysgol, a all arwain at greu'r cynnwys hyfforddi ar gyfer staff.

Gwefan Newydd

Yn wreiddiol, mi wnes i ymgyrchu am wefan newydd ar gyfer Undeb Bangor, ac mi wnaeth gwefan newydd lansio ym mis Awst. Mi fydd unrhyw adborth ar gyfer gwelliannau pellach yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Dawns Balchder

Mewn datblygiad mwy diweddar, hoffwn i gefnogi a hyrwyddo beth mae myfyrwyr LHDTC+ yn gwneud. Mae'r ffocws yma o gwmpas dawns

balchder y Gymdeithas LHDTC+ a'i wneud yn ddigwyddiad mwy, gyda llawer mwy o gefnogaeth gan yr UM. Mae yna gynllun i geisio cael cyllid Medr i helpu i gefnogi hyn, oherwydd problemau presennol efo cyllid. Dylid nodi hefyd fod yr ymgyrch yma yn gynnwys iawn yn y cam cynllunio o'i gymharu â fy ymgyrchoedd eraill; fodd bynnag 'dw i'n bwriadu rhoi gymaint o sylw iddo a fy mlaenoriaethau eraill.

Arall

Fel swyddog UM, mae fy amserlen hyd hyn wedi cynnwys llawer o baratoi at y flwyddyn sy'n dod, yn ogystal ag amser wedi ei dreulio mewn cyfarfodydd efo'r brifysgol, sesiynau uniondeb academiaidd, a digwyddiadau croesawu fel Serendippedd. Mae yna hefyd ymgyrchoedd na allai siarad amdanynt eto, a cawn nhw eu rhannu yn hwyrach pan mae'n briodol i wneud hynny. Os mae gennych chi unrhyw gwestiynau, ymholiadau, pryderon, neu os ydych chi jyst eisiau gwybod be' 'dw i'n gwneud ar y funud, plîs cysylltwch efo fi trwy fy e-bost, harry.polley@undebbangor.com, neu gyrrwch neges i fi ar fy Instagram, @undeb_bangor_president.